

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher 6 Tachwedd 2002

Amser: 9:30am - 12:30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn bresennol:

Aelodau:

Richard Edwards, Cadeirydd

Preseli Sir Benfro

Eleanor Burnham

Gogledd Cymru

David Davies

Mynwy

Janet Davies

Gorllewin De Cymru

Brian Hancock

Islwyn

Sue Essex, y Gweinidog dros yr
Amgylchedd

Gogledd Caerdydd

Val Lloyd

Dwyrain Abertawe

Tom Middlehurst

Alun a Glannau Dyfrdwy

Karen Sinclair

De Clwyd

Phil Williams

Dwyrain De Cymru

Yn bresennol:

Rod Gritten (eitem 2)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dave Keast (eitem 2)

Cyngor Sir Powys

Julia Korn (eitem 2)

Grwp Biomrywiaeth Cymru

Steve Moon (eitem 2)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Melanie Sutherland (eitem 2)	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Sarah Andrews (eitem 3)	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Clive Faulkner (eitem 3)	Ymddiriedolaethau Natur
Anne Meikle (eitem 3)	Gwirfoddolwyr Cefn Gwlad
Tony Prater (eitem 3)	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Julian Salmon (eitem 3)	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Colin Brown (eitem 4)	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Malcolm Smith (eitem 4)	Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Yr Ysgrifenyddiaeth:

Siwan Davies	Clerc y Pwyllgor
Vaughan Watkin	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y cyfranwyr a'r cyhoedd i'r cyfarfod a diolchodd Tom Middlehurst am gadeirio'r cyfarfod diwethaf yn ei absenoldeb. Eglurodd mai diben y cyfarfod oedd olrhain themâu cyffredin yn sgil y cyflwyniadau a wnaed i adolygiad y Pwyllgor o weithredu ar fioamrywiaeth lleol.

Eitem 2: Adolygiad o fioamrywiaeth: trafodaeth â swyddogion lleol

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau ar gyfer swyddogion lleol. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Partneriaeth - manteision cyffredinol partneriaethau'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ond mae angen parhau i bwysleisio pwysigrwydd bioamrywiaeth yn lleol ac ymhlith sefydliadau'r partneriaethau. Ffyrdd o sicrhau ymrwymiad gwleidyddol ac ymrwymiad uwch reolwyr i weithredu lleol, ac o gefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr i roi'r cynllun ar waith;
- Cydlynu cenedlaethol a lleol - angen integreiddio bioamrywiaeth o fewn holl bolisiâu'r

Cynulliad, llywodraeth leol a chyrrff a noddir, ac yn arbennig cadw cydbwysedd rhwng datblygu economaidd a blaenoriaethau ym maes cadwraeth. Mae gwaith ar y gweill i wella cyfathrebu rhwng y lefelau lleol a chenedlaethol drwy swyddog Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Grwp Bioamrywiaeth Cymru;

- Adnoddau - potensial i ddatblygu'r gallu i gyflawni drwy benodi swyddogion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gontractau tymor hir. Dadleuon dros gynyddu cymorth grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru a symleiddio ffynonellau ariannu, cymorth i symud o grantiau blynyddol i gytundebau tair blynedd, a chyfle i ariannu partneriaethau'n uniongyrchol;
- Gwybodaeth ac arbenigedd - rôl bosibl Canolfannau Cofnodion Lleol, cymorth i wirfoddolwyr, ffyrdd o integreiddio bioamrywiaeth o fewn y cwricwlwm cenedlaethol.

Eitem 3: Adolygiad o fioamrywiaeth: trafodaeth â phartneriaid y sector gwirfoddol

3.1 Cofnododd y Cadeirydd ymddiheuriadau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a gwahoddodd gwestiynau i bartneriaid y sector gwirfoddol. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Partneriaeth - galw am ganolbwyntio ar weithredu, nid ar gynllunio, ac angen cael pobl leol yn rhan o'r gwaith. Ffyrdd o leihau baich y sector gwirfoddol, sydd eisoes yn gweithio hyd eithaf ei allu, i gefnogi partneriaethau. Awgrymiadau i annog ymrwymiad gwleidyddol ym maes bioamrywiaeth trwy bwysu yn yr etholaethau;
- Cydlynu cenedlaethol a lleol - angen i fioamrywiaeth fod yn drawsbynciol a'i integreiddio o fewn cynlluniau lleol a chenedlaethol eraill. Effaith allweddol diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) ar allu rheolwyr tir i gyflawni amcanion bioamrywiaeth, a'r angen am fwy o gydlynu rhwng cynlluniau cadwraeth eraill a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol. Angen mwy o gydlynu rhwng Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol i leihau'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrechion ac i ryddhau adnoddau;
- Adnoddau - potensial i fod yn fwy agored o ran pennu blaenoriaethau ariannu, a galw am adnoddau penodedig ar gyfer blaenoriaethau lleol. Cefnogaeth i'r syniad o gynyddu cymorth grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru i'w gynorthwyo i weithredu'r cynllun, newid i gylch ariannu tair blynedd, a symleiddio ffynonellau ariannu;
- Gwybodaeth ac arbenigedd - potensial y Canolfannau Cofnodion Lleol i ddefnyddio sgiliau'r sector gwirfoddol yn well a galw am fwy o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr tir. Rôl allweddol addysgwyr i ennyn brwdfrydedd pobl ifanc ym maes cadwraeth.

Eitem 4: Adolygiad o fioamrywiaeth: trafodaeth gydag ymgynghorwr statudol

1. Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Partneriaeth - rôl Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn y gwaith o gefnogi partneriaethau lleol trwy ddarparu cyngor a chymorth grant, a phwysigwydd cyfathrebu clir a syml i gynyddu dealltwriaeth a diddordeb pobl ym maes cadwraeth;
- Cydlynu cenedlaethol a lleol - angen sicrhau bod arweinwyr gwleidyddol ac uwch reolwyr yn deall pam fod bioamrywiaeth yn allweddol i'n dyfodol. Angen prosiectau i adfer cynefinoedd ar raddfa fawr, yn arbennig prosiectau morol, yn ogystal â mentrau lleol. Effaith y diwygiadau i'r CAP a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) ar flaenoriaethau cadwraeth;
- Adnoddau - Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cefnogi'r syniad o gynyddu arian ar gyfer gweithredu ym maes bioamrywiaeth lleol a symudiad tuag at gytundebau ariannu tair blynedd a'r galw ar bartneriaid i neilltuo arian cyfatebol ar gyfer yr holl gyfnod ariannu;
- Gwybodaeth ac arbenigedd - ymrwymiad i gefnogi Canolfannau Cofnodion Lleol, a hefyd potensial i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau drwy gysylltu ymchwil prifysgolion â blaenoriaethau bioamrywiaeth, a datblygu sgiliau ymarferol i gyflawni ar lawr gwlad.

4.2 Nododd y Pwyllgor nad oedd Asiantaeth yr Amgylchedd na'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyfrannu eto at ei adolygiad.

4.3 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi cyfrannu at adolygiad y Pwyllgor. Y camau nesaf oedd trafod y prif faterion a datganiad polisi'r Gweinidog ar 4 Rhagfyr, ac yna gytuno ar argymhellion drafft ar 18 Rhagfyr. Cytunir ar adroddiad y Pwyllgor yn nhymor y gwanwyn a chaiff ei gyflwyno i'r cyfarfod llawn ar 25 Chwefror.

Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2002 - EPT-14-02 (min)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.00am ddydd Mercher 20 Tachwedd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Tachwedd 2002